



Dyrchafu Iesu

Rhaid cyfaddef bod ambell i stori yn yr Hen Destament yn peri crafu pen, a dyma un ohonynt, 'Y Sarff Bres' yn Numeri 21:4-9. Beth sy'n mynd ymlaen?

Cyfnod o ddeugain diwrnod o ymryd yw'r Grawys sy'n arwain at y Pasg, pryd y dathlwyd gwaredigaeth Israel o'r Aiff, ac y cofiwn ni am farw Iesu yn ein lle ar y groes, a'i atgyfodiad y trydydd dydd. Drwy'r cyfnod yma cofir am ymryd a themtasiwn Iesu, ynghyd â deugain mlynedd o grwydro yn yr anialwch.

Yn ystod y crwydro hwn, dechreuodd pobl Dduw gwyno, 'a siarad yn erbyn Duw a Moses, a dweud, "Pam y daethoch â ni o'r Aiff i farw yn yr anialwch? Nid oes yma na bwyd na diod, ac y mae'n gas gennym y bwyd gwael hwn." Achwyn yw'r gair, ac mewn ymateb 'anfonodd yr ARGLWYDD seirff gwenwynig ymysg y bobl'.

Fe ddown ar draws y sarff yn gyntaf, yn yr ardd, yn temtio Adda a'i wraig, gyda bwyd a chelwydd. Beth oedd y canlyniad? Gwenwynodd y sarff y ddau yn erbyn Duw, a daeth marwolaeth i'n rhan fel dynolryw. Dyma yw'r neges sydd yma hefyd, mae'r nadroedd yn ddarlun o'r cwyno a'r celwydd gwenwynig oedd wedi eu brathu. Wedi gweld eu pechod dychwelodd y bobl at Dduw mewn edifeirwch a gofyn i Moses i eiriol am eu gwaredigaeth. Sylwch yn awr ar natur y waredigaeth. Ie darluniwch ef ac

edrychwch go iawn ar beth sy'n digwydd. Mae Duw yn gorchymyn hoelio'r sarff bres ar bolyn, 'a bydd pawb a frathwyd, o edrych arni, yn cael byw.'

Nodwch hyn, **roedd pawb a oedd yn edrych ar y sarff ar y polyn yn cael byw.**



Wikimedia – Francesco Camora

Clywch yn awr beth ddywedodd Iesu wrth Nicodemus:

'Cododd Moses neidr bres ar bolyn yn yr anialwch. Bydda i, Mab y Dyn, yn cael fy nghodi yr un fath. **Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn cael bywyd tragwyddol!** (Ioan 3:14-15).

Onid os yma ddarlun syml ac effeithiol i ni o'n gwaredigaeth a beth yw credu yn Iesu?

O gydnabod fod brath celwydd y sarff wedi ein gwenwyno yn erbyn Duw, a'n bod felly yn feirw yn ein gwrthryfel a phechod, pa waredigaeth sydd?

Dyrchafu'n golwg ac edrych ar yr Iesu croeshoeliedig. Dyma 'had y wraig' yn ysigo pen y sarff (Genesis 3:15), ac yn cymryd y gwenwyn ynddo'i hun. Yr un dibechod yn dod yn un â phechod i ni gael byw.

Ffydd, dacw'r fan, a dacw'r pren yr hoeliwyd arno D'wysog nen yn wirion yn fy lle; y ddraig a 'sigwyd gan yr Un, cans clwyfwyd dau, concwerodd un, a Iesu oedd efe.

O godi'n golwg o'n cyflwr ac edrych ar Iesu mewn ffydd, byw fyddwn, yn dragwyddol.

... tremiaf drwy gawodydd dagrau ar y groes yn union syth: pen Calfaria dry fy nagrau'n frwd o hedd.

Codwn, felly, ein golygon y Grawys hwn ac edrych ar 'Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd. Er mwyn y llawenydd oedd o'i flaen, fe oddefodd ef y groes heb ddiffygio, gan ddiystyru gwarth, ac y mae wedi eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw. Meddyliwch amdano ef, a oddefodd y fath elyniaeth ato'i hun gan bechaduriaid, rhag i chwi flino neu ddigalonni.'

Hywel Edwards

Daeargryn

Ar ôl cyfres o ddaeargrynfâu 'ysgafn' dioddefodd Ynys Taiwan ddaeargryn sylweddol sydd wedi effeithio ar y wlad yn ei gyfanrwydd. Ar y 6ed o Chwefror trawodd daeargryn oedd yn mesur 6.4 y wlad gan achosi difrod sylweddol mewn mannau. I'r rhai ohonom nad ydym yn medru dychmygu daeargryn mor bwerus dywedir bod daeargryn ar y raddfa a brofwyd yn Nhawain yn cyfateb i ffrwydrad 60,000,000 tunnell o ddynameit. Dinas Hualein oedd canolbwynt y ddaeargryn. Dywedir bod dros 175 o bobl wedi eu lladd gyda nifer fawr o bobl eraill wedi eu heffeithio gan y dinistr.

Mae Eglwys Bresbyteraidd Taiwan, sy'n chwaer eglwys i ni trwy CWM, wedi bod yn

weithgar iawn wrth iddynt ymateb i'r difrod a ddaeth yn sgil y ddaeargryn. Mae gennym un o'n plith, sef Carys Humphreys, sy'n byw yno ac yn gweithio gydag Eglwys Bresbyteraidd Taiwan.

A dyma ei holi. Tybed sut oedd yr eglwys yno wedi ymateb i'r angen oedd ar eu gwlad wedi'r trychineb?

Cyfeiriodd Carys ni at lythyr agored a gyhoeddwyd gan yr eglwys ac yn y llythyr sonnir yn fras am sut ymatebodd yr eglwys.

Arweinir y gwaith o gydlynu ymateb yr enwad i'r ddaeargryn gan y Parch Lim Ui-Lan sy'n Ysgrifennydd Rhaglen yr Eglwys a Chymdeithas a'r Parch Omi Wilang Ysgrifennydd Rhaglen yr Eglwys Frodorol a Chymdeithas. Da fyddai i ninnau gofio mewn

(parhad ar dudalen 2)



Daeargryn

(parhad o dudalen 1)

gweddi am bobl sydd yn arwain, a'r grwpiau o bobl sy'n gweithio ar lawr gwlad, i liniaru'r dioddefaint a brofwyd yn y wlad.

Gofynnodd yr eglwys am gefnogaeth yr eglwysi sydd mewn perthynas â hi drwy CWM. Gofynnir i ni weddio dros y rhai sy'n dioddef oherwydd y ddaeargryn ac yn arbennig y gweithwyr sy'n ceisio achub bywydau'r rhai oedd wedi eu dal mewn adeiladau peryglus. Nodwyd bod Taiwan yn wynebu cyfod o dywydd oer a gwlyb iawn. Er bod ysgolion ar gau oherwydd gwyliau cenedlaethol i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieinaidd rhwng 4ydd a'r 20fed o Chwefror, mae'r ddaeargryn wedi effeithio ar fusnesau lleol ac ar dwristiaeth.



Gweinidogion Eglwys Bresbyteraidd Taiwan yn ymweld â lloches wedi'r ddaeargryn.

Mewn datganiad a wnaed ar y cyd gan y Parchgn Tan Beng-Chi Llywydd y Gymanfa Gyffredinol a Lyim Hong-yr Ysgrifennydd Cyffredinol, dywedwyd bod 'Eglwys Bresbyteraidd Taiwan yn gwerthfawrogi'n ddiffuant y negeseuon ddaeth oddi wrth nifer o' partneriaid rhyngwladol a'n cyfeillion. Bob tro y bydd trasiedi naturiol yn digwydd mae'n gysur mawr ac yn gynhaliath i ni i wybod bod chwiriwydd a brodyr ym mhob cwr o'r byd yn gweddio drosom ac yn cynnal y rhai sy'n dioddef yn ystod yr amser hwn o ddiodeffaint ac o dristwch dwfn. Diolch.'

Ychwanegodd Carys hefyd. 'Ar adegau fel hyn, yn arbennig yn ystod yr oriau cyntaf, beth sydd bwysicaf wrth gwrs ydi achub bywydau a chwilio. Ac yna mae angen sicrhau fod rhai sydd angen triniaeth yn ei gael a bod y rhai sydd wedi colli eu cartrefi yn cael lloches dros dro.

Mae gan y llywodraeth, mudiadau dyngarol, eglwysi a phobl Taiwan brofiad helaeth o sut i ymateb yn wyneb y fath achosion (boed daeargryn neu gorwyntoedd a llifogydd). Byddaf yn rhyfeddu mor gyflym a phroffesiynol ydi'r ymateb.

O safbwynt Eglwys Bresbyteraidd Taiwan (EBT) mae adran Eglwys a Chymdeithas efo rhwydwaith rhagorol sydd yn ymateb i achosion o argyfwng brys fel hyn. Ac o'r oriau cyntaf mae EBT wedi bod wrthi yn brysus ac wedi sefydlu canolfan yn un o'r capeli cyfagos.




Carys Humphreys

Ond dim ond y cychwyn ydi hyn. Unwaith bydd y gwaith achub a gofal meddygol wedi dod i ben yna bydd rhaid asesu a chanolbwyntio ar y bobl sydd wedi colli pob dim yn faterol. Bydd rhaid gofalu amdanynt yn emosynol, yn feddyliol, ac yn ysbrydol am amser i ddod. Ac mae gan yr eglwys ei rhan bwysig i'w chwarae yn hyn. Fe wyddom o brofiad gall y gwaith dilynol barhau am o leiaf bum mlynedd neu ragor.'

Tybed a allech chi gofio yn eich gweddiau:

1. am deuluoedd y rhai sydd wedi marw a theuluoedd sydd wedi colli popeth – nid yn unig eu cartrefi, ond eu holl eiddo personol
2. am y plant a'r henoed – Ar hyn o bryd mae'n wyliau ysgol yma ac fe fydd y gwyliau cenedlaethol mwyaf y flwyddyn yn cael ei gynnal rhwng 15-20 Chwefror. Fel arfer dyma'r amser i deuluoedd ddod at ei gilydd. Fe fydd yn galed arnynt mae'n siŵr.
3. am y rhai sydd wedi colli eu bywoliaeth
4. dros y timau achub sy'n gweithio oriau hir iawn. Gweddïwch y bydd iddynt gael nerth a gorffwys – rhaid gofalu am eu hiechyd (corfforol a meddyliol) hwythau yn ogystal â'r bobl y byddant yn ceisio gweini arnynt.
5. dros y llywodraeth a thros elusennau wrth iddynt ymateb i'r angen i ganfod lle y gall pobl dros dro ac yn y tymor hir
6. dros weithwyr a gwirfoddolwyr Eglwys Bresbyteriad Taiwan (EBT) wrth iddynt wneud eu rhan, wrth iddynt gydweithio o fewn eu rhwydweithiau ac ar iddynt fod yn halen a goleuni yn y gymdeithas.



BYW A DWEUD

gyda Mike Adams, Chloe Richards a Dai Hankey

Dydd Sadwrn, 10 Mawrth 2018
Eglwys Crist, Bala // 10 am – 4.45 pm

Dewch i gael eich ysbrydoli a'ch arfogi i rannu eich ffydd Croeso i ieuencid (15+) ac oedolion o bob oed.

I gofrestru ar-lein, ewch draw at souledoutcymru.net

SIARADWYR:

Mae **Mike Adams** yn ddyn o Lanelli ac mae ganddo lawer o brofiad fel gweithiwr ieuencid ac efengylwr. Mae Mike yn gweithio gyda'r mudiad cenhadol, World Horizons a hefyd yn rhan o dîm Scripture Union Cymru.

Mae **Chloe Richards** wedi'i lleoli yn Abertawe a gyda chalon fawr dros rannu Iesu gydag eraill. Mae'n rhedeg Alpha ar draws Cymru yn ogystal â gweithio gyda myfyrwyr ac oedolion ifanc yn ei heglwys leol, Cornerstone.

Ar hyn o bryd mae **Dai Hankey** yn plannu eglwys yn ardal Adamsdown / Sblot, Caerdydd. Mae Dai hefyd yn arwain *Red Community* – elusen Gristnogol sy'n ceisio mynd i'r afael â masnachu pobl yng Nghymru. Mae wedi ysgrifennu nifer o lyfrau a newydd ennil 'Trydarydd y Flwyddyn' gan Premier Digital!

*Bydd **crèche** ar gael gydol y diwrnod yn Coleg y Bala a bydd **bws** wedi ei drefnu i bobl o Dde neu Ganolbarth Cymru am ddim*

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Coleg y Bala ar 01678 520565 neu ebostiwch info@souledoutcymru.net

Meryl Walters

E-bost a'r Goleud

Gall pwy bynnag sydd am anfon erthyglau a lluniau i'r Goleud wneud hynny ar:

goleud@ebcpw.org.uk